


Ffotograff © Cadw

# *Taith Gerdded 46, Gwenfô*


# Tro drwy Gae Ysbrydion

**Ar y daith fach hon sy'n 5½ milltir yn unig, bydd cyfle i chi weld tair nodwedd o bwysigrwydd cenedlaethol sef: Tŷ Dyffryn a'i erddi bendigedig a dwy siambr gladdu hynafol, Tinkinswood a Llwyneliddon. Pan ystyriwch hefyd mor ddymunol a hawdd ei gerdded yw'r tir a bod pentref bach hyfryd Sain Nicolas wrth ymyl, gwelwch fod gan daith gerdded Gwenfô apêl eang iawn.**


**Pellter** 5 milltir a hanner (o Sain Nicolas) neu 7 milltir (o Wenfô)
**Map** Explorer 151.
**Parcio** Sain Nicolas neu Wenfô. Cewch barcio yn Sain Nicolas yn eglwys y pentref i'r gogledd i'r brif heol neu wrth ochr yr heol yng Ngwenfô.
**Trafnidiaeth Gyhoeddus** Ar gyfer Sain Nicolas - Bws X2 Caerdydd i Ben-y-bont ar Ogwr.
Ar gyfer Gwenfô - Bws X96 neu 96 Y Barri i Gaerdydd bob hanner awr. Dewch allan wrth y Maes Golff/Ganolfan Arddio.
**Bwyd a diod a thoiledau** Mae tafarndai yn Nhresimwn a Gwenfô ond nid ar y daith ei hun.

**MAN CYCHWYN** Os ydych yn cerdded o Wenfô, mae'r daith yn cychwyn wrth fynedfa'r ganolfan arddio. Dilynwch y llwybr o'r brif heol nes i chi ymuno â'r prif lwybr cylch wrth ymyl y maes golff ar ben rhiw Burdonshill. O'r fan honno, cewch ddilyn y map isod o **.

**BRASLUN O'R DAITH.** Byddwch yn cychwyn yn Sain Nicolas ac yn dilyn Llwybr Treftadaeth y Mileniwm heibio i Ddyffryn, siambr gladdu Llwyneliddon, Burdonshill (lle bydd pobl o Wenfô'n ymuno â'r llwybr), Llwyneliddon a Lodge Farm ac yn ôl i Sain Nicolas unwaith eto.
Pellter: 5½ milltir neu 7 milltir o Wenfô.




Mae ffordd gyflym i'r pentref ar hyd lôn fach wledig o siambr gladdu Llwyneliddon sy'n byrhau'r daith o ryw filltir a hanner.




## Y LLWYBR

Ⓒ Cychwynnwch o faes parcio Eglwys Sain Nicolas ❶ ewch yn ôl i'r brif heol. Croeswch wrth y goleuadau traffig a cherddwch ar hyd y lôn tuag at Ddyffryn. Ymhen ychydig, gwelwch gamfa garreg ar y dde. Ewch dros honno a cherddwch i lawr y cwm at gamfa arall o dan goeden ar y chwith. Byddwch yn mynd heibio i hen chwareli ❷. Ewch ymlaen at y gamfa nesaf wrth ymyl coeden fawr. Trowch i'r dde, a dilynwch y berth nes i chi ddod i gamfa arall yng nghornel y cae. Croeswch honno a throwch i'r chwith gydag ymyl y cae at fan lle mae'r ffens yn gwyro i'r chwith. Ewch i'r dde yn y fan honno, ac anelwch am y gamfa nesaf sy'n amlwg o'ch blaen. Gwelwch siambr gladdu Tinkinswood ❸ ar y dde, a'i mynedfa yn y gornel. Ewch dros y gamfa wrth y gât a gwelwch olion res o gerrig yn y cae ❸. Cerddwch ar draws y cae tuag at bolyn telegraff a gwelwch y gamfa nesaf yn union o'ch blaen. Croeswch honno, ac ewch ymlaen i'r un cyfeiriad nes i chi gyrraedd camfa arall a phont fechan ar yr ochr dde i gwt.

Ewch at ffin a chamfa'r cae nesaf. Cerddwch ymlaen gyda chlawdd Tŷ Dyffryn ar eich ochr chwith ❹. Sylwch ar y coed prydferth ar y dde. Yn anffodus, ni chewch fynd i mewn i'r tŷ o'r ochr hon. Ewch dros gamfa arall er mwyn cyrraedd yr heol wrth ymyl Fferm Dyffryn.

Trowch i'r chwith ddwywaith a dilynwch yr heol. Os ydych am fynd i mewn i Erddi Dyffryn, trowch i'r chwith wrth y gyffordd nesaf a cherddwch ymlaen ar yr heol am ychydig ac ni fyddwch fawr o dro cyn cyrraedd y fynedfa.

Bydd cerddwyr y prif lwybr yn mynd heibio i'r gyffordd ac yn troi i'r dde drwy gât mochyn ac i mewn i'r 'cae ysbrydion' bondigrybwyll lle mae siambr gladdu Llwyneliddon ❺. Mae golygfeydd syfrdanol o'r cae hwn a gellwch weld y Barri yn y pellter ar ael y bryn.

Os ydych am roi'r gorau i'r daith, cewch ddychwelyd i'r heol, troi i'r dde a dilyn y lôn wledig i bentref Llwyneliddon. Er nad yw'r lôn hon yn brysur, bydd rhywfaint o draffig ac mae'n ddigon cul mewn mannau.

Er mwyn parhau â'r brif daith, anelwch am y fferm ar ben y cae yn y gornel chwith. Croeswch y gamfa ac ewch drwy'r clos. Cofiwch gau unrhyw gatiau y tu ôl i chi.

Ewch yn eich blaen dros nifer o gamfeydd. Yr adfeilion yn y cae ar eich ochr dde yw olion yr hen odynau calch ❻. Cerddwch drwy'r gât a dilynwch ymyl dau gae gan gadw'r goedwig ar eich ochr dde. PEIDIWCH â chroesi'r gamfa sy'n arwain i'r goedwig. Ewch ymlaen nes i chi gyrraedd llwybr amlwg sy'n arwain i lawr y rhiw ar eich ochr dde. Dilynwch hwn am ychydig bach gan chwilio am gamfa arall mewn ffens ar y chwith. Saif y gamfa hon ychydig yn ôl o'r llwybr, ac mae'n ddigon hawdd ei gweld y rhan fwyaf o'r amser, er bod tuedd iddi fynd ar goll o dan y tyfiant gwyllt yng nghanol yr haf.

Croeswch y gamfa a dilynwch lwybr bach pert sy'n dringo i fyny drwy'r goedwig ac yn arwain i ymyl y maes golff. Ewch i'r chwith drwy'r gât mochyn ac i'r lôn. **Bydd cerddwyr o Wenfô'n ymuno â'r daith yn y fan hon lle byddant yn troi i'r dde.

Ar ôl mynd drwy'r gât, trowch i'r chwith a dilynwch y llwybr. Bydd dŵr ar y llwybr hwn yn aml ond gellwch ei gerdded yn hawdd gyda thipyn o ofal. Ewch ymlaen gyda'r goedwig ar eich ochr dde nes i chi ddod at gamfa wrth ymyl gât fferm ar y chwith. Croeswch honno a dilynwch y berth ar y chwith a gwelwch fastiau radio ar eich ochr dde. Pan gyrhaeddwch y camfeydd carreg a phren ger y conwydd, bydd gennych ddewis o lwybrau.

Croeswch y gamfa, dilynwch y llwybr byr a throwch i'r dde os ydych am ymweld â'r eglwys ❼. Bydd y llwybr hwn yn eich arwain dros nifer o gamfeydd carreg ar draws y fynwent. Pan gyrhaeddwch yr heol, trowch i'r dde a cherddwch at Lodge Farm.

Os nad ydych am ymweld â'r eglwys, anwybyddwch y camfeydd dwbl ger y conwydd, trowch i'r dde a chroeswch ddwy gamfa arall sy'n agor ar yr heol gyferbyn â'r fynedfa i Lodge Farm.

Bydd y rhai sydd wedi cerdded i fyny'r heol o siambr gladdu Llwyneliddon yn ailymuno â'r prif lwybr yn Lodge Farm.

Dilynwch y llwybr i Lodge Farm, croeswch y gamfa ar eich ochr dde yna trowch i'r dde, i'r chwith ac i'r chwith eto nes eich bod ar ochr arall y tŷ. Cerddwch ymlaen gyda'r berth ar eich ochr dde at gamfa sy'n arwain i'r goedwig. Mae llwybr bach hyfryd, clir yn y fan honno sy'n arwain i goediog lle mae tyfiant mwy trwchus a gât fach ar y dde. Peidiwch â chroesi'r gamfa. Yn lle hynny, ewch yn syth yn eich blaen drwy'r coetir garw nes i chi gyrraedd pyst cyfeirbwyntiau a chamfa ar eich ochr dde. Dyma fan gyfarfod pedwar llwybr.

Ewch ymlaen i'r un cyfeiriad nes i chi gyrraedd cyfeirbwynt arall sy'n eich cyfeirio o'r goedwig at gamfa mewn ffens. Ewch at y gamfa nesaf sydd i'w gweld yn amlwg o'ch blaen. Mae'r llwybr erbyn hyn yn anelu am y brif heol. Cerddwch gydag ymyl y cau garw nes i chi gyrraedd peilon ar eich ochr dde. Cafodd y berth ei thynnu yn y fan honno ond ewch yn eich blaen serch hynny. Cerddwch heibio i ben y berth ar y chwith tuag at y conwydd a'r brif heol. Chwiliwch am lwybr amlwg sy'n croesi'r cae ar eich ochr chwith o gornel i gornel ac yn arwain i adeiladau fferm.

Mae'r llwybr hwn yn arwain i'r brif heol, ac os trowch i'r chwith yn y fan honno, byddwch ar y ffordd yn ôl i'r pentref ac i ben eich taith.

## LLEOEDD O DDIDDORDEB

**❶ SAIN NICOLAS**
Hen fythynnod ac eglwys.

**❷ OLION CHWAREL GYNHANESYDDOL**
Cafodd y ddwy siambr gladdu eu hadeiladu o garreg laid o'r chwarel hon yn ôl pob tebyg.

**❸ SIAMBR GLADDU TINKINSWOOD**
Mae'n dyddio'n ôl i 3,500 CC a chafodd ei defnyddio hyd 2,000 CC. Mae ganddi'r capfaen mwyaf yn Ewrop yn ôl pob sôn. Mae'n bosibl mai olion y siambr helaethach yw'r cerrig gerllaw, ond yn ôl y traddodiad menywod a gafodd eu troi n gerrig am ddawnsio ar y Sul yw'r rhain.

**❹ TŶ DYFFRYN**
(ychydig oddi ar y prif lwybr)
Cafodd ei adeiladu ym 1893 ac mae ganddo Erddi Edwardaidd Rhestredig Gradd 1. Mae cynllun presennol y Gerddi'n dyddio o 1906.

**❺ SIAMBR GLADDU LLWYNELIDDON**
Mae'n llai na siambr Tinkinswood ac ni chafodd ei chloddio erioed. Mae pob math o hen chwedlau am y cae. Bydd ceffyl dan gyfrwy na all neb ei farchogaeth yn ymddangos ar nosweithiau golau lleuad. Ar Noswyl Ifan peidiwch â synnu os gwelwch y capfaen yn troi deirgwaith tra bod y cerrig yn mynd i mewn i nofiad yn yr afon! Sibrydwch wrth y cerrig ar Galan Gaeaf ac mae'n bosibl y cewch eich dymuniad.

**❻ ADFEILION YR ODYNAU CALCH**

**❼ EGLWYS A FFYNNON LLWYNELIDDON**



Bythynnod Sain Nicolas


Ffotograff (H) Ray Price



Cerflun yn Nhŷ Dyffryn

Ffotograff (H) Cyngor Bro Morgannwg

## LLEOLIAD Y DAITH GERDDED MEWN PERTHYNAS Â LLWYBR TREFTADAETH Y MILENIWM VALEWAYS




Mae Llwybr Treftadaeth y Mileniwm Valeways yn ymestyn am fwy na 100 cilomedr ac yn cwmpasu dros 6000 o flynyddoedd o hanes. Bydd yn ymlwybro drwy nifer o dirweddau prydferth iawn. O ben gogleddol y llwybr, mae golygfeydd ar draws holl ardal Blaenau Morgannwg, ac yn y de bydd y llwybr yn dilyn arfordir clogwynog trawiadol.

Mae'r Llwybr yn ymrannu'n 16 o ddarnau sy'n hawdd eu dilyn a gellwch gerdded pob un ohonynt mewn ychydig o oriau'n unig. Mae'r tir o gwmpas yn amrywiol, yn drawiadol yn aml ac yn llawn olion hanesyddol.

Os nad ydych erioed wedi ymweld â'r rhan hon o Gymru, byddwch wrth eich bodd yn cerdded drwy'r tiroedd isel ffrwythlon sy'n ffinio â'r Arfordir Treftadaeth godidog a'i draethau hardd. Mae'r llwybr yn cynnwys llawer o nodweddion hanesyddol diddorol dros ben sy'n amrywio o siambrau claddu cynhanesyddol i gestyll, eglwysi a phlastai mawreddog.

Mae Valeways wedi cyhoeddi teithlyfr Llwybr Treftadaeth y Mileniwm. Mae'r llyfr lliwgar hwn yn disgrifio 16 rhan y daith gerdded ac yn cael ei gyflwyno mewn pecyn sydd hefyd yn cynnwys 16 o fapiau A3 cyfatebol. Cewch ei brynu oddi wrth Valeways am £8.49 sy'n cynnwys cludiant a phacio.



Eglwys Llwyneliddon

Ffotograff (H) Cyngor Bro Morgannwg



Tŷ Dyffryn o'r awyr

Ffotograff (H) Cyngor Bro Morgannwg

## NODWEDDION Y DAITH GERDDED

- Pentref Sain Nicolas
- Siambr Gladdu Tinkinswood
- Siambr Gladdu Llwyneliddon
- Tŷ a Gerddi Dyffryn
- Eglwys a Ffynnon Llwyneliddon
- Cefn Gwlad prydferth



Tŷ a Gerddi Dyffryn

Ffotograff (H) Ray Price

## DILYNWCH Y GÔD CEFN GWLAD

- Byddwch yn ddiogel, cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Ewch â'ch sbwriel gartref, a gofalwch warchod bywyd gwyllt
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Byddwch yn ystyriol o bobl eraill

make tracks with Valeways

Elusen gofrestredig yw Valeways sy'n cydweithio â chymunedau lleol er mwyn ailagor hen lwybrau a chreu rhwydwaith o deithiau cerdded cylch difyr ar draws Bro Morgannwg sy'n cysylltu trefi a phentrefi â'r wlad o'u hamgylch a mannau o ddiddordeb. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl wirfoddolwyr a roddodd yn hael o'u hamser er mwyn darparu'r daith gerdded hon i chi ei mwynhau.

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

**Partneriaeth Valeways** - Diolch o galon i Gyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cefn Gwlad Cymru am barhau i'n cefnogi.

Cefnogwyd gan
Supported by

CRONFA LOTERI FAWR BIG LOTTERY FUND

enfys

Environment Wales Amgylchedd Cymru

cerdded llwybr iechyd walking the way to health


Valeways, Uned 7, Canolfan Mentrau Cymunedol y Barri,
Heol Skomer, Y Barri CF62 9DA

Ffôn/ffacs: 01446 749000
E-bost: info@valeways.org.uk
Gwefan: http//www.valeways.org.uk


Elusen Gofrestredig Rhif 1062031 Cwmni Cofrestredig Rhif 333088

*Taith Gerdded 46, Gwenfô*

# Cae Ysbrydion

Pellter: 5[1]/2 milltir



Siambr Gladdu Llwyneliddon

Ffotograff (H) Cadw

make tracks with Valeways